OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2016 Rhif 91 (Cy. 44)

2016 No. 91 (W. 44)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2016

The Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/793 (Cy. 108)).

Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan na fydd yn effeithio ar y costau na'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations correct an error in the Welsh text of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Wales) Regulations 2012 (S.I. 2012/793 (W. 108)).

A Regulatory Impact Assessment has not been prepared for this instrument as it has no impact on the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2016 Rhif 91 (Cy. 44)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2016

Gwnaed	*27 Ionawr 2016*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*1 Chwefror 2016*
Yn dod i rym	*1 Mawrth 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 10, 74, 82 a 93 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2016 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1990 p. 9. Diwygiwyd adran 10 gan adrannau 42 a 118 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) ("Deddf 2004"). Diwygiwyd adran 74(1), (3) a (4) gan adran 63 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (p. 24). Diwygiwyd adran 74(3) hefyd gan O.S. 2006/1281. Nid yw'r diwygiadau i adran 82 yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd adran 93(1) gan adran 78 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) a pharagraff 33 o Atodlen 10 iddi, a mewnosodwyd is-adrannau (6A) a (6B) gan adran 118 o Ddeddf 2004 a pharagraffau 19 a 26 o Atodlen 6 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan yr adrannau hynny, i'r graddau yr oeddynt yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.

2016 No. 91 (W. 44)

TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

The Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

Made	*27 January 2016*
Laid before the National Assembly for Wales	*1 February 2016*
Coming into force	*1 March 2016*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 10, 74, 82 and 93 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990(**1**) and now exercisable by them(**2**), make the following Regulations.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Wales) (Amendment) Regulations 2016 and they come into force on the 1 March 2016.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(**1**) 1990 c. 9. Section 10 was amended by sections 42 and 118 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c. 5) ("the 2004 Act"). Section 74(1), (3) and (4) was amended by section 63 of the Enterprise and Regulatory Reform Act 2013 (c. 24). Section 74(3) was also amended by S.I. 2006/1281. Amendments to section 82 are not relevant to these Regulations. Section 93(1) was amended by section 78 of, and paragraph 33 of Schedule 10 to, the Environment Act 1995 (c. 25), and subsections (6A) and (6B) were inserted by section 118 of, and paragraphs 19 and 26 of Schedule 6 to, the 2004 Act.

(**2**) Functions under those sections, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), those functions are now exercisable by the Welsh Ministers.

Diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012

2.—(1) Mae testun Cymraeg Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1) (ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth) mewnosoder "gais am" o flaen y geiriau "ganiatâd adeilad rhestredig".

Amendment of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Wales) Regulations 2012

2.—(1) The Welsh text of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Wales) Regulations 2012(**1**) is amended as follows.

(2) In regulation 3(1) (ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth) insert "gais am" before the words "ganiatâd adeilad rhestredig".

Carl Sargeant

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru
27 Ionawr 2016

Minister for Natural Resources, one of the Welsh Ministers
27 January 2016

©℗Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2012/793 (Cy. 108).

(**1**) S.I. 2012/793 (W. 108).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2016 Rhif 91 (Cy. 44)

2016 No. 91 (W. 44)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2016

The Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Wales) (Amendment) Regulations 2016

ISBN 978-0-348-11267-2

£4.25

W2598/02/16 ON